Does dim cywilydd mewn gofyn am help

Mae Cyngor Sir Ynys Môn ynghyd â'i bartneriaid yma i helpu trigolion Ynys Môn.

Yn dilyn pandemig y Coronafeirws mae'r Awdurdod, mewn partneriaeth a Medrwn Môn a Menter Môn, wedi bod yn gweithio'n galed er mwyn sicrhau bod pethau yn eu lle er mwyn gallu cefnogi trigolion a busnesau'r Ynys.

Mae Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn, y Cynghorydd Llinos Medi, yn bryderus er bod nifer o bobl wedi gofyn am help yn barod bod yna nifer mwy sydd angen cefnogaeth, meddai "Mae hwn yn gyfnod digynsail ac mae'r awdurdod yn gwneud popeth o fewn ei allu i amddiffyn a chefnogi'r rhai hynny sy'n wynebu'r argyfwng hwn. Fodd bynnag, dwi'n poeni bod rhai pobl nad ydynt yn derbyn cymorth."

"Dydi gofyn am help yn ddim byd i fod cywilydd ohono ac rydym ni, mewn partneriaeth â Menter Môn a Medrwn Môn wedi cyflwyno nifer o wahanol brosiectau er mwyn sicrhau cyflenwadau bwyd a chefnogi rhwydweithiau cymunedol a chefnogi busnes."

"Fy nod yw sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i geisio diogelu trigolion Ynys Môn. Does dim stigma am ofyn am help ac rydym yma i gefnogi ein cymunedau."

Bellach, mae gan Ynys Môn bedwar banc bwyd wedi eu sefydlu ar yr Ynys sy'n darparu gwasanaeth danfon bwyd, sy'n darparu parseli bwyd yn cynnwys eitemau megis grawnfwyd brecwast, sŵp, pasta, reis a chynnyrch mewn tuniau. Mae'r banciau bwyd sy'n weithredol ar hyn o bryd wedi eu lleoli yng Nghaergybi, Amlwch, Llangefni a Phorthaethwy ac ar hyn o bryd maent yn mynd â bwyd i 100 o gyfeiriadau'r wythnos. Mae hwn yn gynnydd sylweddol o gymharu â'r cyfnod cyn y pandemig, lle'r oedd bwyd yn cael ei ddanfon i chwe deg cyfeiriad y mis.

Mae gan yr Ynys rwydwaith gymunedol gadarn ac mae cannoedd o bobl yn barod i helpu. Mae gwirfoddolwyr a busnesau ledled yr Ynys wedi ymrwymo i helpu ac i gefnogi'r rhai hynny sydd mewn angen yn ystod y cyfnod hwn gan gynnig gwasanaethau megis danfon bwyd a meddyginiaethau i'r rhai hynny sy'n gweithio ar y rheng flaen, pobl fregus a'r rhai hynny sydd mewn angen.

Ychwanegodd y Cynghorydd Llinos Medi, "Mae gan Ynys Môn ffabrig cymdeithasol cryf ac mae hynny wedi dod i'r amlwg yn ystod y pandemig hwn. Mae'n deimlad braf iawn gweld yr holl becynnau cymorth yn cyrraedd ac rydw i am i bobl wybod bod modd iddynt ofyn am help."

"Yn ystod y cyfnod anodd hwn, mae angen i ni edrych ar ôl ein gilydd fwy nag erioed."

Am y wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau yn ystod cyfnod y Coronafeirws ewch i wefan Cyngor Sir Ynys Môn, www.ynysmon.gov.uk/coronafeirws

Byddwn hefyd yn:

- Paratoi bwletinau rheolaidd ar gyfer yr orsaf radio leol MônFM
- A byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth bwysig ar ein cyfryngau cymdeithasol – Facebook, Twitter ac Instagram

Cofiwch ddilyn y canllawiau diweddaraf a ddarperir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Don't be ashamed to ask for help

The Isle of Anglesey County Council with its partners is here to help the Island's residents.

Following the Coronavirus Outbreak the authority, in partnership with Medrwn Môn and Menter Môn, has been working hard to ensure provisions in order to support the Island's residents and businesses.

Anglesey County Council's Leader, Councillor Llinos Medi is concerned that although many people have asked for help she believes that there are many more that need to be supported, "These are unprecedented times and the authority is doing all it can to protect and support those in crisis. I am however worried that some are slipping through the net."

"Asking for help is nothing to be ashamed of and we in partnership with Menter Môn and Medrwn Môn have introduced a variety of different projects, ensuring food provisions, supporting community and business support networks."

"My aim is to ensure that we do everything possible to safeguard Anglesey's residents. There is no stigma in asking for help and we are here to support our communities."

Anglesey now has four established food banks that offer a delivery service, providing food parcels including items such as breakfast cereals, soups, pasta, rice, and tinned products. The food banks currently in operation are in Holyhead, Amlwch, Llangefni and Menai Bridge and is at present delivering to 100 addresses a week. This is a significant increase prior to the pandemic which was sixty addresses a month.

The Island also has a robust community network with hundreds of people ready to help. Volunteers and business across the Island have committed to help and support those in need during this period, offering services such as food and medication deliveries to those working the front line, the vulnerable and those in need.

Councillor Llinos Medi added, "Anglesey has a strong social fabric and this has been made clear during this pandemic. Seeing all the support packages currently on offer is very humbling and I want people to know that they can ask for help."

"During this difficult period we need to look after each other more than ever."

For the latest information on services during the Coronavirus outbreak please visit the Isle of Anglesey County Council's website, www.anglesey.gov.uk/coronavirus

We will also be:

- Preparing regular bulletins for to local radio station MônFM
- And will be publishing any important information on our social media pages – Facebook, Twitter and Instagram

Please remember to follow the latest guidance provided by Public Health Wales and both the UK and Welsh Governments.

Stay home, stay safe, save lives.